BookTrust Cymru

Amser Rhigwm Mawr Cymru

Big Welsh Rhyme Time

# Yr Enfys Unlliw

Gan David Lennon

Fe welais i enfys, roedd yn ddu a gwyn
A welsoch erioed rhywbeth od fel hyn

Collwyd yr holl liw, a bydd rhaid darganfod
Yr holl liwiau a thonau o fy mhlentyndod

Yn gyntaf gwelais goch, ar injan dân (*clap, clap*)
Ar y ffordd i'r Barri, roedd yn gwibian (*clap, clap*)

Fe ddaeth lliwiau (Coch!)
A dwi'n lwcus heddiw
Ac maen nhw'n berffaith
Am fy enfys unlliw, unlliw, unlliw, o

Trodd yr awyr yn oren wrth i'r haul fachlud (*clap, clap*)
Y gorwel a welwch, am ddim ond deng munud (*clap, clap*)

Fe ddaeth lliwiau (Oren!)
A dwi'n lwcus heddiw
Ac maen nhw'n berffaith
Am fy enfys unlliw, unlliw, unlliw, o

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

#BwrlwmYRhigwmIBawb
#RhymingFunForEveryone

BookTrust Cymru

Amser Rhigwm Mawr Cymru

Big Welsh Rhyme Time

## Yr Enfys Unlliw

Gan David Lennon

Mi welais i felyn, ar goeden lemwn (*clap, clap*)
A chymerais i'r ffrwyth, mwyaf sur a chrwn (*clap, clap*)

Fe ddaeth lliwiau (Melyn!)
A dwi'n lwcus heddiw
Ac maen nhw'n berffaith
Am fy enfys unlliw, unlliw, unlliw, o

Fe welais i wyrdd, ar oleuadau traffig (*clap, clap*)
Ac arhosais o hyd (Ewch!) yn fy nghar awtomatig (*clap, clap*)

Fe ddaeth lliwiau (Gwyrdd!)
A dwi'n lwcus heddiw
Ac maen nhw'n berffaith
Am fy enfys unlliw, unlliw, unlliw, o

Cyn hir gwelais las, yn yr awyr uwchben (*clap, clap*)
A'r llinell fach sgleiniog, oedd awyren (*clap, clap*)

Fe ddaeth lliwiau (Glas!)
A dwi'n lwcus heddiw
Ac maen nhw'n berffaith
Am fy enfys unlliw, unlliw, unlliw, o

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

#BwrlwmYRhigwmIBawb
#RhymingFunForEveryone

Rhif Elusen / Charity Number: 313343

BookTrust Cymru

Amser Rhigwm Mawr Cymru

Big Welsh Rhyme Time

## Yr Enfys Unlliw

Gan David Lennon

Le, gwelwn indigo ar garreg lapis (*clap, clap*)
Hoff berlau fy mam, sy'n ei gwneud hi'n hapus (*clap, clap*)

Fe ddaeth lliwiau (Indigo!)
A dwi'n lwcus heddiw
Ac maen nhw'n berffaith
Am fy enfys unlliw, unlliw, unlliw, o

O'r diwedd, dyma fioled, mewn cae lafant (*clap, clap*)
Cymerais flodyn, ar gyfer dawns y pasiant (*clap, clap*)

Fe ddaeth lliwiau (Fioled!)
A dwi'n lwcus heddiw
Ac maen nhw'n berffaith
Am fy enfys unlliw, unlliw, unlliw, o

Gyda'r holl liwiau yma, yn disgleirio’n llachar
Gallaf weld yr holl sbectrwm, mewn enfys liwgar

Fe ddaeth lliwiau (Hwrê!)
A dwi'n lwcus heddiw
Popeth yn berffaith
Am fy enfys amryliw
Popeth yn berffaith
Am fy enfys amryliw
Popeth yn berffaith
Am fy enfys amryliw (*cymeradwyaeth*)

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

#BwrlwmYRhigwmIBawb
#RhymingFunForEveryone